

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: Nos Iau 7fed o Chwefror 2013

921. Croeso ac Ymddiheuriadau: Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer Miss Shan Ranson. Yn bresennol – Shan Ranson, Dilwyn Jones, John Williams, Sharon Evans, Ivora Jones, Edith Roberts, Dorothea Evans, Alun Price, Islwyn Pritchard- Jones, Eluned Jones, Eifion Roberts Dilys Evans ac Cyng Sir Dilwyn Morgan. Derbynydd ymddiheuriadau gan yr heddlu.

922. Datgan Buddiant

Nid oedd neb yn datgan buddiant cyn y cyfarfod ond yn ystod y cyfarfod wnaeth Shan Ranson ac Edith Roberts beidio cymeryd rhan pan trafodwyd copi cais cynllunio Heol y Castell. Hefyd Edith Roberts pan darllenwyd llythr gan eu wyres.

923. Cadarnhau Cofnodion 3ydd o Ionawr 2013

Darllenwyd ac cafwyd yn gywir.

924. Materion yn codi o'r cofnodion:

Partneriaeth Penllyn – Cais i drafod materion yn cynnwys cymeradwyo i'r cadeirydd arwyddo ymestyn y Cytundeb rhwng Partneriaeth Penllyn a Gwynedd am flwyddyn arall. Mae Partneriaeth Penllyn wedi ffurfio cwmni Cyfyngedig o'r enw "Pum Plwy Penllyn" er mwyn cael personoliaeth gyfreithiol. Mae nhw hefyd mewn trafodaethau cynnar gyda Parc Cenedlaethol Eryri am drosglwyddo cyfrifoldeb dros rhai asedau.

Gofal Ysbaid – anfonwyd y gwahoddiad a bydd cynrychiolwyr mis nesaf, pasio i wahodd cyngorwyr o'r plwyfi atom ac hefyd eu cynhorwyr sir.

Gor-yrru Heol Pensarn – mae posibilrwydd bydd arolwg ychwanegol yn y dyfodol agos..

Tawelyddion Heol y Castell – yn anffodus nid oeddynt yn medru rhoi amserlen ond yn obeithiol byddau cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Troedffordd Stryd Fawr – fydd y gwaith yma yn y flwyddyn ariannol nesaf pan fydd lefel palmant yr arosfa ger cofgolofn Tom Ellis yn cael sylw.

Cysgodfa bws – gohebiaeth o anffodlonrwydd bod ddim cysgodfa ger cofgolofn Tom Ellis.

Swydd Clerc – wedi anfon swydd ddisgrifiad i'r ymholwyr. Cyfweliadau cyn ein cyfarfod nesaf, panel wedi eu ddewis ac angen paratoi rhestr cwestiynau.

Parcio stryd fawr- asiantaeth cefnffyrdd yn holi a oes lleoliadau penodol y byddem yn ystyried fel manau parcio anabl.

925. Materion yr Heddlu:

Derbynydd ymddiheurad gyda nodyn i ni rhoi cais i Cyngor Gwynedd am arwyddion pwrpasol ger Ysgol Bro Tegid yn gwahardd parcio ger y llinellau sig sag. Bydd yr heddlu yn gobeithio cynnal cymorthfeydd rheolaidd yn y dyfodol agos.

926. Materion Cyngorydd Sir

Adroddodd Dilwyn Morgan bod yr heddlu wedi cadarnhau iddo bydd arwyddion flachio dros dro ar y ffordd ysgoi ac caiff eu edrych arnodd eto pan mae cyllideb, bydd swyddog cefn gwlad hefyd yn dod i'r ardal yn y dyfodol. Cafodd wahoddiad i pwyllgor y siopau ynghyd a'r pwyllgor twristiaeth am cais posibl y Co-op, nid yw ef nac y Cyngor Tref wedi derbyn rhagor o wybodaeth hyd yn hyn. Mae wedi cyfarfod a grwp sydd yn awyddus i drefnu carnifal neu achlysur tebyg ac bydd cyfarfod cyhoeddus yn fuan. Mae wedi cyfarfod a swyddog newydd Age Cymru, ac bydd yn ngofal trefniadau lleol, bydd bws mini yn cyrraedd yn fuan ac mae cais am wirfoddolwyr i yrru y bwsmini i'r gweithgareddau ar rota. Gofynwyd i Mr Morgan ar ein rhan

edrych fewn i'r mater bod y palmant yn Heol Tegid yn tueddol o fynd yn llithrig eithriadol gyda rhew ac trefniadau hel ysbwriel pan mae tywydd eithafol.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc

927. Materion Cynllunio:

Derbynwyd llythr gan Fred Breakell, swyddog datbygu cymunedol yn cadarnahu bod y cais cynllunio wedi eu anfon i'r Parc.

Cafwyd trafodaeth ar y cynlluniau anfonwyd gan y Parc Cenedlaethol ac rydym yn cefnogi y cais, ni cymerodd Edith Roberts na Shan Ranson ran gan eu bod ar pwyllgor Parc Chwarae Heol y Castell

Y clerch am lenwi holiadur cyffredinol derbynwyd gan y Parc Cenedlaethol am eu gwasanaeth.

928. Materion Cyllid:

Cymeradwyd i dalu yr bil Vodafone, cyflog y clerch, G Edwards am gwaith ar y Domen, Viking, Gwasg y Sir ac y Cambrian News hysbysebion am clerch, scrubadub glanhau cysgodfa bws ar y Stryd Fawr. Derbynwyd ad- taliad treth ar werth cymeradwyd i anfon ad -daliad y Partneriaeth. Derbyn ad- daliad gan Cyngor Gwynedd am gwaith cynnal a chadw y Domen, a taliad Cyngor Gwynedd am y coed Nadolig a'u gosod ar Neuadd Buddug.

929. Gohebiaeth:

Bwrdd Iechyd Besti Cadwaladr –copi datganiad i'r wasg

Cyngor Gwynedd – Rhaglen waith Chwefror i newid cebl diffygiol, golau stryd yn Heol Tegid.

Unllais Cymru- digwyddiad yn Llandudno, coffad y Rhyfel Byd Cyntaf 28 Ionawr 2013-

Ymateb Unllais i bil ymgynghorol

Cymdeithas yr Iaith – datganiad wasg am Rali yn Bala

Grwp TwristiaethPenlyn – cofnodion cyfarfod

Partneriaeth Penllyn – cofnodion cyfarfod

Cyngor Cefn Gwlad – newyddion grantiau ac ati

Nifer o ceisiadau ariannol i edrych arnynt mis nesaf -Papur Llafar y Deillion Dolgellau, Gofal

Croes FFryrdd, Age Cymru, Nightingale House, Teulu Berwyn, Canolfan y Plase, Clwb

Genweirio

Cais gan Lisa Owen am cyfrainiad i helpu gyd a costau ymweliad a Patagonia. Edith Roberts yn datgan buddiant gan eu fod yn wyres iddi. Pasiwyd y llythr i'r Maer i syytried rhodd o cronfa'r Maer.

Llythr Gwybodaeth gan Mynud Ma cyf yn cyflwyno eu hunain fel contractwyr.

930.Materion Brys

Gan bod nifer o'r cyhoedd yn holi y cyngrowyr am cynlluniau i'r tir er Plas yn Dre y clerch i holi'r sefyllfa

Cofnodwyd bod Antur Penllyn erbyn hyn wedi dod i ben ac unrhyw asedau wedi eu trosgwylddo. Mae y Cyngor Tref yn gwerthfawrogi y gwaith ac yr ymdrech caled dros y 24 mlynedd diwethaf i'r dref.

Mae cyhoeddiad wedi bod mae Y Bala fydd lleoliad Eisteddfod Cenedlaethol yr Urdd 2014.

The Police will be looking to holding regular surgeries at the station. There will be flashing speeding lights placed on the bypass temporarily at least pending budgeting issues. Speeding humps will hopefully be in place before April in Castle Street as there has been a problem with speeding. Also a request will be made for signage for Ysgol Bro Tegid as there is a parking problem there. There has been a request that we consider and suggest places to be disabled parking spaces on the high street.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerch